

Casgliad Effemera Gwleidyddol Cymreig

Lluniwyd yn ddiweddar restr gyfansawdd a chyflawn o'r casgliad sylweddol o anerchiadau etholiadol ac effemera gwleidyddol – dim llai na 135 o flychau ohonynt – a gasglwyd gan yr Archif Wleidyddol Gymreig ers ei sefydlu ym 1983.

Byth ers sefydlu'r Llyfrgell Genedlaethol ar ddechrau'r ugeinfed ganrif daeth rhai enghreifftiau o'r fath ddeunydd i

law, ond yn anochel roedd ein daliadau yn druenus o annigonol ac anghyflawn. Yn dilyn sefydlu'r AWG, fodd bynnag, llwyddwyd i greu rhwydwaith o gysylltiadau ym mhob etholaeth ledled Cymru a chysylltwyd yn ogystal â phencadlys Cymreig pob un o'r prif bleidiau gwleidyddol. Fel canlyniad daeth yn bosibl i gasglu set bron yn gyflawn o'r anerchiadau gwleidyddol a thafenni a gylchredwyd yn yr etholaethau Cymreig ar gyfer etholiadau seneddol cyffredinol ac is-etholiadau, etholiadau i'r Senedd Ewropeaidd ac etholiadau Ewrop byth ers 1983.

Mae'r casgliad hefyd yn cynnwys deunydd printiedig yn ymdrin â'r pleidiau gwleidyddol yng Nghymru, nifer fawr o'r carfanau pwysu a'r cymdeithasau sy'n weithredol yng Nghymru, a nifer o bynciau fel Refferendwm Ewrop 1975, Refferendwm Datganoli 1979 a 1997, streic y glowyr, 1984-85, yr ymgyrch yn erbyn Treth y Pen, 1989-90, ac ymgyrch ddiweddar Senedd i Gymru.

Yn fuan gellir gweld y rhestr ar-lein ar dudalennau gwe'r Llyfrgell, tra bod copi caled ohoni ar gael yn Ystafell Ddarllen y De o fewn y Llyfrgell. Y bwriad yw ei diwygio a'i diweddarau yn dilyn pob etholiad cyffredinol a'r etholiadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Byddai'r Archif yn croesawu derbyn deunydd pellach yn ymwneud ag etholiadau seneddol cyffredinol ac is-etholiadau o'r cyfnod cyn 1983 er mwyn llenwi bylchau yn ein daliadau. Dylid cyfeirio anerchiadau a thafenni yn tarddu o etholiadau lleol i ofal yr archifdai sirol a llyfrgelloedd lleol.



Anerchiad etholiad Eirene White, Sir Fflint, 1945

**Yr Archif Wleidyddol Gymreig
Darlith Flynyddol 2004**

Yr Athro Deirdre Beddoe
'Merched a Gwleidyddiaeth yng
Nghymru'r Ugeinfed Ganrif'

Y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
5.30pm Gwener, 5 Tachwedd

Yr Archif Wleidyddol Gymreig

Sefydlwyd yr Archif Wleidyddol Gymreig yn 1983 i gydlynŷr gwaith o gasglu tystiolaeth ddogfennol o bob math am wleidyddiaeth Cymru. Cesglir cofysgrifau a phapurau pleidiau gwleidyddol, gwleidyddion, mudiadau lled-wleidyddol, ymgyrchoedd a charfanau pwyso; taflenni, pamffledi, ac effemera printiedig eraill; posterï a ffotograffau; a thâpiau rhaglenni radio a theledu. Am fwy o wybodaeth cysyllter â Dr. J. Graham Jones Yr Archif Wleidyddol Gymreig Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, Cymru, SY23 3BU
Tel: 01970 632866
Fax: 01970 632883
jgj@llgc.org.uk
www.llgc.org.uk/lc/awg_c_awg.htm

'CEIDWAD CYFRINACHAU'

Am 1.30 pm, dydd Mercher, 6 Hydref 2004, fel un o gyfres o ddarlithiau amser cinio a gynhelir yn y Drwm, bydd Dr J. Graham Jones, Pennaeth yr Archif Wleidyddol Gymreig, yn rhoi sgwrs fer ar y testun, ' "Keeper of Secrets": Albert James Sylvester CBE (1889-1989)'.

Gwasanaethodd A. J. Sylvester fel Prif Ysgrifennydd Preifat David Lloyd George o 1923 hyd at ei farw ym 1945. Roedd felly mewn sefyllfa hollol unigryw i sylwi ar a chofnodi manylion am fywyd a gweithgareddau Lloyd George. Prynwyd ei gasgliad sylweddol o ddyddiaduron, gohebiaeth a phapurau gan y Llyfrgell Genedlaethol ym 1990 yn dilyn ei farwolaeth. Ychydig iawn o haneswyr sydd wedi gwneud defnydd ohonynt, ond fe'u defnyddiwyd yn helaeth wrth baratoi'r ddarlith hon.

Rhys yn y Drwm

Rhwng 7 a 18 Mehefin 2004 cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau trawiadol ac amrywiol i nodi agor darlithfa, sinema a theatr newydd y Llyfrgell, sef 'Y Drwm'. O 2004 ymlaen cynhelir darlithiau blynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig yn y Drwm yn hytrach nag yn yr Hen Goleg. Yr achlysur olaf, ac un o'r mwyaf nodedig, oedd darlith gan Mr Rhys Evans, cyn

Cyhoeddir testun y ddarlith dreiddgar hon (ynghyd â thestun darlith flynyddol yr AWG 2003 gan Mr Ron Davies) yn rhifyn nesaf *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* yn ystod yr hydref.

Treuliodd Rhys Evans rai blynyddoedd yn ymchwilio ar gyfer y cofiant llawn cyntaf i Dr Gwynfor Evans a gyhoeddir gan Wasg y Lolfa, Talybont yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Eryri



Rhys Evans yn darlithio yn y Drwm

ohebydd materion gwleidyddol S4C, sydd bellach yn olygydd *Dragon's Eye*. Ymgasglodd cynulleidfâ niferus i wrando arno.

Thema Rhys oedd ' "Lamp fawr yn y fagddu?": Gwynfor Evans, Plaid Cymru a'r Ail Ryfel Byd', a chyflwynodd ddadansoddiad penigamp o'r dylanwadau ar Gwynfor Evans tra'n wleidydd ifanc, heddychwyr a ffigwr cyhoeddus hyd at ei ethol yn llywydd y Blaid ym 1945. Gwnaeth ddefnydd helaeth o'r archif sylweddol o bapurau Dr Evans, archif Plaid Cymru a nifer fawr o ffynonellau llawysgrif a phrintiedig eraill yn ogystal â nifer o gyfweiliadau personol a wnaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

a'r Cylch, Awst 2005, union wyth deg o flynyddoedd wedi sefydlu Plaid Genedlaethol Cymru yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli, Awst 1925. Bydd y gyfrol yn gyfraniad sylweddol at ein dealltwriaeth o fywyd gwleidyddol Cymru yn ystod yr ugeinfed ganrif.

Byth ers 1973 cyflwynodd Dr Gwynfor Evans nifer o gasgliadau o'i bapurau gwleidyddol i ofal y Llyfrgell Genedlaethol. Yn ddiweddar dechreuwyd ar y gwaith o ddiidoli a threfnu'r archif fawr iawn o bapurau yn y gobaith o lunio rhestr derfynol o'r casgliad cyfan cyn diwedd 2005.

Digido Llythyrau Lloyd George

Gellir gweld ar dudalennau we'r Llyfrgell Genedlaethol delweddau digidol o'r 3,292 llythyr oddi wrth Lloyd George at ei frawd William a brynwyd gan y Llyfrgell ym 1989 fel rhan o bapurau William George. Maent yn dyddio o'r cyfnod rhwng 1886 a 1943, er mai nifer fechan sydd o'r blynyddoedd wedi 1917. Ysgrifennwyd llawer o'r llythyron cynnar o wahanol rannau o Gymru, tra ysgrifennwyd y mwyafrif o'r llythyron diweddarach, pan oedd Lloyd George ar ei anterth, o San Steffan.

Mae'r llythyron yn arbennig o gyflawn ar gyfer y cyfnod cyn apwyntio Lloyd George i'r cabinet fel Llywydd y Bwrdd Masnach ddiwedd 1905. Wedi hynny, y mae llawer ohonynt yn nodiadau byrion, wedi eu sgriblo'n gyflym, ond â'r fantais amhrisiadwy o roi ymateb uniongyrchol yr awdur i ddigwyddiadau fel yr oeddent yn digwydd. Weithiau roedd y rhain yn ddigwyddiadau cenedlaethol o bwys mawr. Y mae newyddion gwleidyddol a newyddion teuluol yn cyd-gymysgu'n hawdd wrth i'r awdur newid yn rhwydd rhwng y Saesneg a'r Gymraeg, efallai er mwyn trechu llygaid busneslyd y gwasanaethau diogelwch.



William George (1865 – 1967) brawd Lloyd George

Y mae llawer o'r llythyron cynnar yn trafod achosion cyfreithiol mewn cryn fanylder a materion eraill yn ymwneud â busnes cyfreithiol y teulu Lloyd George and George. Elw o'r busnes a alluogai'r gwleidydd ifanc uchelgeisiol i aros yn San Steffan cyn y dechreuwyd talu aelodau seneddol yn 1911. Daw

llawer o'r trobwyntiau yng ngyrfa wleidyddol Lloyd George yn fyw trwy'r llythyron, a cheir golwg newydd ar wleidyddiaeth fewnol Bwrdeistrefi Caernarfon, rôl Lloyd George yn ystod Rhyfel y Bweriaid a'i ymgyrch yn erbyn trefniadau Deddf Addysg Balfour 1902.

Mae llythyron diweddarach yn cyfeirio at apwyntiad Lloyd George yn Llywydd y Bwrdd Masnach a'i ddyrchafiad i fod yn Ganghellor y Trysorlys yn Ebrill 1908. Mae llawer o gyfeiriadau hefyd at baratoad, cyflwyniad a chanlyniad 'Cyllideb y Bobl' 1909, ysbryd milwriaethus y mudiadau llafur a'r *suffragettes* yn ystod blynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif, a digwyddiadau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Cyfeirir at waith Lloyd George gyda'r Weinyddiaeth Arfau a'r Weinyddiaeth Ryfel mewn nifer o nodiadau byrion, yn ogystal â'i apwyntiad yn Brif Weinidog pan oedd y Rhyfel Byd Cyntaf ar ei anterth yn Rhagfyr 1916. Mae'r llythyron yn llawn o gyfeiriadau at gyfoeswyr, yn arbennig gwleidyddion Rhyddfrydol eraill. Datgela'r llythyron hefyd lawer ynglŷn â pherthynas Lloyd George ag aelodau o'i deulu.

Hefyd ar gael ar dudalennau gwe LIGC mae delweddau digidol o dudalennau dyddiadur poced Lloyd George ar gyfer 1886. Ceir ynddo gyfeiriadau manwl at ymweliad Michael Davitt â gogledd Cymru ym mis Chwefror ac at ddyheadau ac uchelgais personol a gwleidyddol Lloyd George ei hun. Y dyddiadur hwn yw'r mwyaf cyflawn a'r difyrraf o lawer o'r rhai a gadwyd gan y Lloyd George ifanc.

Y BLAID LAFUR ANNIBYNNOL YN ABERTAWE

Drwy garedigrwydd Mr Dave Fullman, Alveston, swydd Gaerloyw, bu'r Archif Wleidyddol Gymreig yn hynod o ffodus i dderbyn ffêil denau o ohebiaeth, 1901-08, yn ymdrin â datblygiad y Blaid Lafur Annibynnol yn ne Cymru. Mae gohebiaeth sy'n ymwneud â bywyd gwleidyddol adain chwith y cyfnod hwn yn brin iawn.

Mae'r rhan fwyaf o'r llythyron yn trafod yr ymgais (a fu'n fethiant yn y pen draw) yn ystod 1902 a 1903 i enwebu John Littlejohns, athro lleol ac un o arloeswyr yr ILP yn Abertawe, fel ymgeisydd y Blaid ar gyfer etholaeth Rhanbarth Abertawe yn yr etholiad cyffredinol nesaf – i sefyll yn erbyn Syr David Brynmor Jones, yr AS Rhyddfrydol yno ers rhai blynyddoedd. Ceir cyfeiriadau difyr at yr anawsterau dybryd ynghylch cyllid a threfniant a wynebai'r ILP yn ei phlentyndod, a'r gwrthwynebiad cynyddol yno i ymgeisydd y blaid a arweiniodd at dynnu'r ymgeisydd yn ôl yn y pen draw. Crëwyd embaras mawr i'r achos Sosialaidd a dychwelwyd Syr Brynmor Jones i'r senedd yn ddiwrthwynebiad. Dyna ddiwedd ar yrfa wleidyddol John Littlejohns; bu'n rhaid iddo ganolbwyntio ar adfer ei yrfa fel athro ar ôl hynny.

Ceir o fewn y ffêil lythyrau gan nifer o hoelion wyth yr ILP yn ganolog, yn eu plith Charles Duncan, Bruce Glasier a John Penny. Mae rhai o'r papurau'n ymdrin â phenodi Matt Giles ym 1906 fel trefnydd amser llawn cangen de Cymru Undeb y Gweithwyr, tra cyfeiria tri nodyn byr at y trefniadau ar gyfer ymweliad Keir Hardie, AS Llafur Merthyr Tudful, a rali yn Abertawe yng Ngorffennaf 1908.

Derbyniadau diweddar

Papurau Ioan Bowen Rees

Drwy haelioni ei weddw Mrs Margaret Bowen Rees, mae'r Llyfrgell wedi derbyn grŵp sylweddol o bapurau gwleidyddol ei diweddar ŵr Mr Ioan Bowen Rees (1929-99), cyn brif weithredwr Cyngor Sir Gwynedd a ffigwr canolog yn ystod ymgyrchoedd y 1990au dros ddatganoli. Mae llawer yn ymdrin â gweithgarwch Mudiad Senedd i Gymru a'r camau a arweiniodd at bleidlais 'Ie' yn refferendwm 1997 a sefydlu Cynulliad Cenedlaethol dros Gymru dwy flynedd ar ôl hynny. Ceir yn eu plith dros gant o lythyrau hynod ddadlennol oddi wrth y Dr Gwynfor Evans at Mr Rees.



Ioan Bowen Rees

Ymgyrchydd treth y pen

Cyflwynodd y Cyngorydd Ray Davies, Bedwas, Caerffili, i'r Archif amrywiaeth diddorol o bapurau, 1976-2004, sy'n adlewyrchu ei weithgarwch fel cyngorydd sir ar gyfer ward Bedwas, Trethomas a Machen, a'r rhan a chwaraeodd mewn nifer o ymgyrchoedd cenedlaethol. Maent yn cynnwys streic y gweithwyr dur, 1980, streic y glowyr, 1984-85, a'r ymgyrch yn erbyn treth y

Papurau Philip Weekes

Mae Mrs Branwen Weekes, Llanilltud Fawr, yn garedig iawn wedi cyflwyno i'r Llyfrgell bapurau ei diweddar ŵr Mr Philip Weekes, awdur *A great wealth of lack of knowledge* a *Trem yn ôl a threm ymlaen*, gan gynnwys ei nodiadau ymchwil ar hanes economaidd a'r amgylchiadau o fewn pyllau glo de Cymru, gohebiaeth, llyfrau nodiadau, cynlluniau a mapiau, a deunydd printiedig. Mawr hyderwn yr ychwanegir at yr archif yn y dyfodol agos y dyddiaduron rhyfeddol o ddiddorol a gadwodd Mr Weekes yn ystod streic y glowyr, 1984-85.

pen, 1988-89, pan gafodd Mr Davies ei garcharu ddwy waith. Maent hefyd yn ymdrin â'i gysylltiad â'r mudiad heddwch yng Nghymru, gan gynnwys ei waith fel is-gadeirydd CND Cymru a'i ymweliadau â Phalestina ac Iraq. Mae Mr Davies hefyd wedi cyflwyno rhydwant cyfoethog o anerchiadau etholiadol a thafenni gwleidyddol o ardal Bedwas a Chaerffili sydd wedi eu hychwanegu at Gasgliad Effemera Gwleidyddol Cymreig.

Strata Matrix

Mae cwmni cysylltiadau cyhoeddus Strata Matrix, Aberystwyth, wedi cyflwyno casgliad o'i gyhoeddiadau Précis a gylchredodd yn ystod ymgyrch etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, 2003. Ceir ynddynt ddatganiadau dyddiol i'r wasg yn crynhoi cynnwys colofnau papur newydd a rhaglenni radio a theledu yn ystod yr ymgyrch.

Dyddiadur Heddwch

Drwy garedigrwydd Mrs Ann Pettitt, mae'r Llyfrgell wedi derbyn dyddiadur a luniodd yn croniclo'r teithiau heddwch i Gomin Greenham. Ei gyfeirnod bellach yw NLW MS 23,901.

Etholiadau Ewrop 2004

Drwy gydweithrediad parod pencadlys Cymreig y pleidiau gwleidyddol, derbyniodd yr Archif set gyflawn o'r manifestos, anerchiadau etholiadol a'r tafenni a gylchredwyd yn yr etholaethau Cymreig yn ystod ymgyrch Etholiad Ewrop 2004. Ychwanegwyd hwy at Gasgliad Effemera Gwleidyddol Cymreig.



Cyhoeddiadau ar-lein

Gellir bellach prynu'r holl gyhoeddiadau sydd ar werth yn siop y Llyfrgell, gan gynnwys darlithiau blynyddol yr AWG ers 1987, yn uniongyrchol ar-lein.

Cyfeiriad y safle we yw
siop.llgc.org.uk.

Rydym yn argymhell y dylid gwneud ymholiadau ynglŷn â thelerau derbyn y papurau cyn ymweld â'r Llyfrgell. Ceir gwaharddiad ar weld neu atgynhyrchu nifer o gasgliadau diweddar yr AWG.